**Rhif: WG53967**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

# HMS

Darparu diwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddarparu diwrnodau HMS (hyfforddiant mewn swydd) yng Nghymru.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Arweinyddiaeth
Is-adran Ymarferwyr Ysgol
Cyfarwyddiaeth Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: YmgynghoriadHMS2025@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/darparu-diwrnodau-hms-hyfforddiant-mewn-swydd-yng-nghymru-html

**Cynnwys**


Cyflwyniad .......... 4
Yr Ymgynghoriad .......... **Error! Bookmark not defined.**
Pwy ymatebodd i'r Ymgynghoriad? .......... 5
Crynodeb o'r Ymatebion – y prif ymgynghoriad .......... 6
Crynodeb o'r Ymatebion – ymgynghoriad plant a phobl ifanc .......... 15
Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 17
Y Camau Nesaf .......... 18
Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr .......... 19

## Cyflwyniad

Mae gan systemau addysg sy’n perfformio ar y lefel uchaf weithlu medrus a brwdfrydig sy’n cael ei gefnogi i ymgymryd â dysgu proffesiynol parhaus drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae’r ffocws parhaus hwn ar ddatblygiad proffesiynol yn hanfodol i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth ac, yn ei dro, sicrhau gwell deilliannau i blant a phobl ifanc. Yng Nghymru, mae dull cenedlaethol o ran dysgu proffesiynol wedi’i sefydlu i gefnogi’r holl ymarferwyr ysgol, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cyflenwi ac arweinwyr, i fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain a’i gryfhau drwy gydol eu gyrfaoedd.

Mae’r system addysg yng Nghymru yn parhau i wynebu diwygiadau a heriau sylweddol a pharhaus. Mae’r rhain yn cynnwys rhoi’r Cwricwlwm i Gymru ar waith, diwygiadau i’r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cyflwyno cymwysterau newydd, a ffocws parhaus ar degwch a chynhwysiant. Ochr yn ochr â’r diwygiadau hyn, mae ysgolion ac ymarferwyr yn rheoli pwysau o ran llwyth gwaith ac yn cydbwyso’r angen am ddysgu proffesiynol â’r effaith y gall amser i ffwrdd o’r ystafell ddosbarth ei chael ar ddysgwyr a theuluoedd. Mae angen i ddarparu digon o amser a lle ar gyfer dysgu proffesiynol o safon uchel barhau i fod yn brif ystyriaeth wrth gefnogi’r broses o roi blaenoriaethau cenedlaethol ar waith yn effeithiol.

Yn y cyd-destun hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i adolygu nifer y diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yng Nghymru a’r defnydd a wneir ohonynt. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y canlynol:

- cadw’r chwe diwrnod HMS fesul blwyddyn academaidd drwy gadw’r diwrnod HMS ychwanegol a gyflwynwyd ym mlwyddyn ysgol 2025 i 2026 (ac a ddarparwyd yn flaenorol ers 2019), a rhagnodi prif ddibenion diwrnodau HMS, drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a’r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 a’r Ddogfen ‘Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)’ (STPC(W)D), a
- newidiadau i’r canllawiau anstatudol i gryfhau diben diwrnodau HMS, y ffordd y cânt eu cynllunio a’r defnydd a wneir ohonynt.

Roedd yr ymgynghoriad yn rhan o raglen waith ehangach i gefnogi dysgu proffesiynol drwy gydol eu gyrfa i’r gweithlu ysgolion, a chafodd ei lywio gan dystiolaeth sy’n dod i’r golwg, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o wneir o ddiwrnodau HMS a’u heffaith, a’r ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru.

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad ac mae’n cyflwyno’r prif themâu a’r materion a godwyd gan yr ymatebwyr. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio, ochr yn ochr â chanfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn symud ymlaen â’r cynigion.

## Yr Ymgynghoriad

Gwahoddwyd barn fel rhan o gyfnod ymgynghori wyth wythnos a ddechreuodd ar 10 Rhagfyr 2025 ac a ddaeth i ben ar 4 Chwefror 2026. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r cynigion polisi, ochr yn ochr â chwestiynau safonol ar y Gymraeg, a chafodd ei gyhoeddi ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a'u sylwadau ar-lein, drwy e-bost neu ar bapur, yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rhannwyd y ddolen i'r ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychiadol, cyrff proffesiynol, sefydliadau'r sector, undebau ac awdurdodau lleol.

Cyhoeddwyd fersiwn iaith glir o'r ymgynghoriad, a'r holiadur ymateb, ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Pwy ymatebodd i'r Ymgynghoriad?

Cafwyd cyfanswm o 316 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau â buddiant.

Cafwyd cyfanswm o 5 ymateb i'r ymgynghoriad plant a phobl ifanc.

Mae rhestr o'r ymatebwyr, ac eithrio'r rhai a ofynnodd am gael aros yn ddienw, ar gael yn Atodiad A.

## Crynodeb o’r Ymatebion – y prif ymgynghoriad

Mae’r adran hon yn grynodeb o’r ymatebion a gafwyd. Nid yw’n ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr. Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn 10 cwestiwn ac mae’r ymatebion i bob un wedi’u crynhoi isod.

**Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno y dylid darparu 6 diwrnod HMS bob blwyddyn o 2026 i 2027 drwy newid dogfen tâl ac amodau athrawon ysgol (Cymru)?**

Roedd 84.71% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 7.32% yn anghytuno

Nid oedd 7.96% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, ynghyd â 97 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig:

- Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at angen cynyddol am amser hyfforddi a pharatoi i gynnal ymarfer addysgu effeithiol, heb roi rhesymau penodol.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at yr angen am ddiwrnod ychwanegol pan nad yw staff yn addysgu i gynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau a diwygiadau. Roedd y rhain yn cynnwys addysgu ac asesiadau o dan y Cwricwlwm i Gymru, cymwysterau newydd, a diwygiadau ADY.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at ddisgwyliadau cynyddol i athrawon ac ysgolion, fel cefnogi anghenion cynyddol amrywiol dysgwyr, a’r hyn yr oedd ymatebwyr yn ei alw’n “hyfforddiant gorfodol” mewn meysydd fel diogelu, ymddygiad ac iechyd a diogelwch, a oedd yn cymryd mwy o amser.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn nodi bod diwrnodau HMS yn helpu ysgolion i barhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn ystod cyfnod pan mae’r amser a’r gyllideb ar gyfer hyfforddiant arall (ar ddiwrnodau pan mae’r plant yn bresennol yn yr ysgol) yn gyfyngedig. Roedd nifer o’r sylwadau hefyd yn nodi bod y diwrnod HMS ychwanegol yn werthfawr oherwydd y cynnydd yn llwyth gwaith athrawon.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn rhoi enghreifftiau o welliannau o ganlyniad i’r diwrnod HMS ychwanegol a ddarparwyd ers 2019, neu ddiwrnodau HMS yn gyffredinol, gan gynnwys drwy gydweithio ag ysgolion eraill, a’r manteision wrth i holl staff yr ysgol dreulio amser gyda’i gilydd.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi bod angen mwy na 6 diwrnod.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi bod angen eglurder ynghylch yr effaith ar delerau ac amodau ymarferwyr.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynnig:

- Roedd rhai o’r sylwadau yn cyfleu ansicrwydd ynghylch yr effaith ar delerau ac amodau ymarferwyr (e.e. hawl a thâl gwyliau).
- Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn cael effaith ac yn cael ei chynllunio’n effeithiol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â’r cynnig:

- Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi nad oedd angen diwrnod HMS ychwanegol gan fod 5 yn ddigonol neu nad oedd y ddarpariaeth HMS bresennol yn cael effaith, a chyfeiriodd rhai at yr heriau ehangach sy’n wynebu addysg yng Nghymru.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn cyfeirio at effaith y diwrnodau pan nad yw’r dysgwyr yn yr ysgol ar addysgu a dysgu, ac ar fywyd teuluol, ac roedd un sylw yn awgrymu y dylai diwrnodau HMS gael eu cynnal yn ystod y gwyliau ysgol.

**Cwestiwn 2 - A ydych yn cytuno y dylid defnyddio diwrnodau HMS yn bennaf neu’n gyfan gwbl ar gyfer hyfforddiant, cynllunio a pharatoi mewn perthynas â’r dibenion a amlinellir (sy’n ymwneud ag ADY, y cwricwlwm ac asesu cymwysterau a blaenoriaethau cenedlaethol)?**

Roedd 85.62% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 6.07% yn anghytuno

Nid oedd 8.31% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 313 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, ynghyd â 97 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig:

- Roedd nifer o’r sylwadau yn croesawu’r cynnig ac yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu proffesiynol, neu weithgarwch cynllunio a pharatoi, i gefnogi addysgu a dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru, a chymorth ADY, yn benodol
- Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at yr angen am amser i gwblhau hyfforddiant mewn meysydd nad ydynt wedi’u rhestru’n benodol, a chyfeiriwyd at hyn weithiau fel “hyfforddiant gorfodol”. Roedd enghreifftiau o’r math hwn o hyfforddiant yn cynnwys diogelu, PREVENT, iechyd a diogelwch, Team Teach, diogelwch tân, trais yn erbyn menywod a merched, a hyfforddiant ar systemau TG.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn cyfeirio at bwysigrwydd amser paratoi a chynllunio, gan gynnwys o fewn adrannau, yn ogystal â hyfforddiant.

- Roedd nifer o’r sylwadau yn nodi pwysigrwydd rhoi ymreolaeth i ysgolion a’u harweinwyr gynllunio dysgu proffesiynol a pharatoi sy’n addas ar gyfer eu hanghenion.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn cyfeirio at lesiant staff.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi bod amser ar gyfer gweithgarwch sy’n benodol i’r sector, yn enwedig mewn ysgolion ffydd, yn bwysig.
- Roedd rhai o’r sylwadau yn nodi ei bod yn bwysig bod staff cymorth yn cael eu cynnwys a’u bod yn ymgysylltu â diwrnodau HMS.
- Cafwyd awgrym y dylid crybwyll cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â’r blaenoriaethau a nodwyd.
- Cafwyd sylw a oedd yn nodi na ddylai “hyfforddiant” gael ei ddehongli’n rhy gul ac y dylai gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu proffesiynol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynnig:

- Roedd nifer o’r sylwadau yn nodi pwysigrwydd rhoi ymreolaeth i ysgolion a’u harweinwyr gynllunio dysgu proffesiynol a pharatoi sy’n addas ar gyfer eu hanghenion.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn canolbwyntio ar faterion ychwanegol neu amgen yr oedd yr ymatebwyr yn credu y dylent gael blaenoriaeth ar ddiwrnodau HMS, fel hyfforddiant ar ddiogelu, hyfforddiant sy’n benodol i bynciau, paratoi a chynllunio adrannol, addysgeg, amser llesiant staff, dylunio’r ystafell ddosbarth a’r amgylchedd.
- Cafwyd rhai sylwadau ar bwyntiau amrywiol fel y posibilrwydd o hyfforddiant sydd wedi’i gyfarwyddo’n genedlaethol i’r holl ysgolion, hyfforddiant penodol i staff cymorth, diwrnodau paratoi adrannol, a chaniatáu amser ar ddiwrnodau HMS i’r staff reoli eu llwyth gwaith.

**Cwestiwn 3 - Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori bod ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill ac awdurdodau lleol i gydlynu amseru diwrnodau HMS ar draws grwpiau, clwstwr neu awdurdodau lleol. Mae hyn er mwyn lleihau aflonyddwch i deuluoedd sydd â phlant mewn mwy nag un ysgol ac i alluogi gwell cydweithio rhwng ysgolion lle bo modd. Bydd hyn yn cael ei gydlynu rhwng penaethiaid ac awdurdodau lleol. A ydych yn cytuno?**

Roedd 75.56% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 14.29% yn anghytuno

Nid oedd 10.16% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, ynghyd â 97 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod hyn eisoes yn arfer cyffredin ac yn fuddiol, a dywedodd eraill fod cydweithio yn gynhyrchiol ar y cyfan, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu proffesiynol Cymraeg. Nododd rhai y byddai mwy o gydweithio yn werth chweil.
- Roedd rhai sylwadau yn cyfeirio at yr effaith lai ar deuluoedd, ac athrawon sydd â phlant mewn gwahanol ysgolion.
- Roedd rhai sylwadau yn cyfeirio at anawsterau posibl o ran dod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant allanol pe bai'r holl ysgolion yn cael HMS ar yr un diwrnod. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai y gallai hyn arwain at well presenoldeb ar gyrsiau proffesiynol.
- Cafwyd rhai cyfeiriadau at gynnal ffocws sy'n benodol i'r ysgol lle bo angen, yn enwedig pan roedd gan ysgolion yn yr un clwstwr wahanol anghenion, ac at rai ystyriaethau logistaidd (e.e. y gallu i gael cydweithio fertigol yn ystod cyfnodau arholiadau ysgolion uwchradd).
- Roedd rhai sylwadau yn cyfeirio at allu penaethiaid ac awdurdodau lleol i gydlynu gweithgareddau.
- Cafwyd awgrym ynghylch darparu gofal plant i blant athrawon a theuluoedd agored i niwed.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, neu a oedd yn anghytuno, â'r cynnig, canolbwyntiwyd ar ystyriaethau logistaidd (e.e. trefnu hyfforddiant allanol, cydweithio fertigol yn ystod cyfnodau arholiadau) a diogelu ymreolaeth ysgolion i gynllunio darpariaeth HMS i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol. Roedd yr enghreifftiau o anghenion penodol yn cynnwys gwahanol ofynion ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion ffydd y mae'n rhaid iddynt weithio ar lefel ehangach na'r clwstwr lleol i gydweithio o fewn esgobaethau, ac ysgolion sydd â nifer sylweddol o ddysgwyr o deuluoedd Mwslimaidd y mae angen iddynt gynllunio diwrnodau HMS i gyd-fynd â gwyliau. Cafwyd awgrymiadau gan ymatebwyr ynghylch diwrnodau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol. Roedd rhai sylwadau yn cydnabod buddion diwrnodau HMS wedi'u cydlynu i deuluoedd.

**Cwestiwn 4 - Rydym yn cynnig newid y canllawiau i ofyn i ysgolion gyfathrebu'r diben a'r amseru ar gyfer eu hyfforddiant gydag awdurdodau lleol a rhieni neu ofalwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?**

Roedd 65.40% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 22.22% yn anghytuno

Nid oedd 12.38% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ynghyd â 101 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi mai dyma'r arfer presennol, ei fod yn ymarferol a'i fod yn gweithio'n dda.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn tynnu sylw at y buddion i deuluoedd, ac i athrawon sydd â phlant, os gallant gynllunio ymlaen llaw. Roedd rhai hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o rannu dyddiadau ymlaen llaw i alluogi cydweithio rhwng ysgolion.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod y cynnig i rannu diben diwrnodau HMS â rhieni yn ddefnyddiol i wrthsefyll canfyddiadau rhieni ynghylch y defnydd o ddiwrnodau HMS, a hawliau gwyliau athrawon.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi y gallai rhannu dyddiadau ymlaen llaw fod yn heriol pe bai'r cynlluniau yn newid, er enghraifft o ganlyniad i argaeledd hyfforddiant neu ofynion sy'n newid.
- Roedd rhai o'r sylwadau yn awgrymu y byddai rhannu diben diwrnodau HMS ymlaen llaw yn fwy heriol na rhannu'r dyddiad, oherwydd y gallai'r cynnwys a fwriadwyd newid yn ystod y flwyddyn.
- Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, neu a oedd yn anghytuno, â'r cynnig: roedd nifer o'r sylwadau yn nodi y byddent yn cytuno â rhannu'r amseru, ond nid y diben. Roedd rhai o'r sylwadau y nodi y dylid ymddiried mewn ysgolion i gynllunio diwrnodau HMS yn ôl eu hanghenion eu hunain, heb graffu gan awdurdodau lleol, neu (i raddau llai) gan deuluoedd), neu adrodd iddynt.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at yr angen am hyblygrwydd i addasu yn ôl gofynion sy'n newid a heriau sy'n codi yn ystod y flwyddyn y mae angen mynd i'r afael â nhw drwy HMS ond nad oedd modd eu cynllunio cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd rhai o'r sylwadau yn awgrymu y dylid penderfynu ar amseru a chynnwys mwyafrif y diwrnodau HMS ymlaen llaw, ond y dylid cadw rhai diwrnodau ar gyfer anghenion sy'n codi. Roedd rhai o'r sylwadau hefyd yn cyfeirio at argaeledd partneriaid neu ddarparwyr hyfforddiant allanol.

**Cwestiwn 5 - Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn grwpio mwy na 2 ddiwrnod HMS gyda'i gilydd mewn bloc. A ydych yn cytuno?**

Roedd 67.41% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 17.25% yn anghytuno

Nid oedd 15.34% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ynghyd â 71 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at yr angen i ddiwrnodau HMS gael eu gwasgaru drwy'r flwyddyn. Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod cael dau ddiwrnod gyda'i gilydd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn ddefnyddiol (a'r gweddill wedi'u gwasgaru drwy'r flwyddyn).
- Roedd nifer o'r sylwadau yn sôn am darfu ar addysgu a dysgu, neu ar fywyd teuluol, pan mae diwrnodau wedi'u grwpio gyda'i gilydd, a chafwyd rhai cyfeiriadau at yr effeithiau ar ddysgwyr iau, y rheiny o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny ag ADY.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi y byddai mwy na dau ddiwrnod gyda'i gilydd yn llai cynhyrchiol oherwydd blinder.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi nad grwpio diwrnodau yw'r arfer presennol ac nad yw'n gyffredin.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, neu a oedd yn anghytuno, â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn pwysleisio buddion cael dau ddiwrnod gyda'i gilydd, a nododd rhai y byddai mwy na dau ddiwrnod yn ormod, ac felly nid yw'n glir pam nad oedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno â'r cynnig i gynghori ysgolion i beidio â grwpio mwy na dau ddiwrnod gyda'i gilydd.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn pwysleisio bod angen disgresiwn a hyblygrwydd i ysgolion, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol ysgolion a galluogi cydweithio.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod cael dau ddiwrnod gyda'i gilydd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn ddefnyddiol.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod angen i rai mathau o hyfforddiant gael eu darparu dros ddau ddiwrnod, ac awgrymwyd bod trefnu hyfforddiant mewn blociau hefyd yn fwy costeffeithiol, neu fod angen dau ddiwrnod i baratoi (yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn).
- Cafwyd rhai awgrymiadau bod blociau o ddiwrnodau HMS – cyn neu ar ôl gwyliau ysgol, neu hyd yn oed wythnos lawn ar wahân – yn caniatáu i deuluoedd gael gwyliau rhatach.
- Cafwyd awgrym ynghylch pennu dyddiadau cyson ledled Cymru.

**Cwestiwn 6 - Rydym yn cynnig newid y canllawiau i gynghori nad yw ysgolion yn trefnu mwy na 2 ddiwrnod HMS fel sesiynau cyfnos o fewn y flwyddyn academaidd. A ydych yn cytuno?**

Roedd 53.67% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 29.71% yn anghytuno

Nid oedd 16.61% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ynghyd â 82 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at effaith sesiynau cyfnos ar athrawon sydd â phlant.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod sesiynau cyfnos yn golygu diwrnodau hir, sy'n cael effaith ar gynhyrchiant oherwydd blinder. Roedd nifer o'r sylwadau hefyd yn nodi bod sesiynau cyfnos yn llai effeithiol heb roi rheswm penodol.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at yr effaith ar lwyth gwaith a llesiant, yn enwedig yn ystod yr wythnosau pan gynhelir y sesiynau cyfnos.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at anawsterau i athrawon sy'n gweithio'n rhan-amser, a staff cymorth, o ran mynychu sesiynau cyfnos.
- Roedd rhai o'r sylwadau yn cyfeirio at fuddion sesiynau cyfnos ar gyfer rhai gweithgareddau.
- Cafwyd sylw ynghylch diffyg darpariaeth gontractiol ar gyfer sesiynau cyfnos, ac roedd nifer o'r sylwadau yn nodi y dylai sesiynau cyfnos fod yn ddibynnol ar gytundeb lleol (gan gynnwys trafodaeth gyda chynrychiolwyr undebau).
- Cafwyd awgrym y dylid diffinio hyd sesiynau cyfnos (er enghraifft, 2 x sesiwn 3 awr neu 3 x sesiwn 2 awr i wneud un diwrnod HMS).

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, neu a oedd yn anghytuno, â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn pwysleisio pwysigrwydd ymreolaeth a hyblygrwydd i ysgolion fynd i'r afael â'u hanghenion penodol eu hunain.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at fuddion sesiynau cyfnos, er enghraifft, dosbarthu gweithgarwch dysgu proffesiynol neu wella yn barhaus drwy'r flwyddyn, a'r ffaith bod hyfforddiant byrrach yn sicrhau mwy o ymgysylltiad. Cyfeiriodd rhai hefyd at argaeledd darparwyr hyfforddiant.
- Nododd rhai eu bod yn credu bod cymryd dau ddiwrnod HMS ar ffurf sesiynau cyfnos mewn blwyddyn yn ormod, a nododd eraill fod 6 sesiwn cyfnos (3 sesiwn i wneud 2 ddiwrnod HMS) yn cael effaith ar nifer fawr o wythnosau, gan effeithio ar lwyth gwaith a llesiant.
- Nododd rhai fod un neu ddau ddiwrnod yn cael eu cymryd ar ffurf sesiynau cyfnos ar hyn o bryd, a bod hynny'n gweithio'n dda.
- Awgrymodd rhai y dylai fod uchafswm o 3 diwrnod.

**Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno y dylai'r canllawiau bwysleisio bod o leiaf 4 diwrnod HMS yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, yn unol â'r dibenion arfaethedig ar gyfer diwrnodau HMS mewn ysgolion? (Bydd hyn yn golygu na**

**chaiff mwy na 2 ddiwrnod HMS eu defnyddio ar hyfforddiant nad yw'n ymwneud â dysgu ac addysgu.)**

Roedd 66.13% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 16.29% yn anghytuno

Nid oedd 17.57% yn cytuno nac yn anghytuno

Cawsom 314 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ynghyd â 87 o sylwadau atodol.

Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig:

- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod y cynnig yn arfer da ac yn gydbwysedd da, neu'n pwysleisio pwysigrwydd gwella addysgu a dysgu.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at ofynion hyfforddiant eraill y mae ymatebwyr yn aml yn eu galw'n "hyfforddiant gorfodol". Diogelu oedd yr enghraifft a roddwyd amlaf, a chyfeiriwyd hefyd at iechyd a diogelwch, Team Teach, Prevent, trais yn erbyn menywod a merched, a gweithdrefnau tân, meddygol a gweithdrefnau mewn argyfwng.
- Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, neu a oedd yn anghytuno, â'r cynnig: roedd nifer o'r sylwadau yn pwysleisio pwysigrwydd ymreolaeth a hyblygrwydd i ysgolion fynd i'r afael â'u hanghenion penodol eu hunain. Soniodd nifer o ymatebwyr am ymateb i argymhellion Estyn ac, mewn un achos, soniwyd yn benodol am anghenion ysgolion ffydd.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn cyfeirio at ofynion hyfforddiant eraill y mae ymatebwyr yn aml yn eu galw'n "hyfforddiant gorfodol", gan roi enghreifftiau tebyg i'r rheiny gan ymatebwyr a oedd yn cytuno.
- Roedd nifer o'r sylwadau yn sôn am feysydd pwysig eraill, ochr yn ochr ag addysgu a dysgu, fel ADY, ac ymddygiad a llesiant. (Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys yn y dibenion rhagnodedig a gynigir).
- Roedd nifer o'r sylwadau yn nodi bod amser cynllunio a pharatoi, o fewn adrannau neu ar y cyd, yr un mor bwysig â hyfforddiant.
- Roedd rhai o'r sylwadau yn nodi bod diwrnodau HMS yn aml yn cwmpasu nifer o wahanol elfennau.

**Cwestiwn 8 - Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynnig hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Cawsom 170 o sylwadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn. Yn eu plith:

- Roedd mwyafrif y sylwadau yn nodi na fyddai unrhyw effaith, a dywedodd rhai na fyddai effaith oni bai bod amser HMS yn cael ei ddefnyddio’n benodol ar gyfer gweithgareddau sy’n ymwneud â’r Gymraeg.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn awgrymu y gallai rhywfaint o amser HMS gael ei ddefnyddio i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff neu i ddatblygu gweithgareddau ysgolion i hyrwyddo’r iaith. Cafwyd awgrym y dylai treftadaeth y Gymraeg gael ei hintegreiddio i gynllun y cwricwlwm.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn nodi na ddylai datblygu’r Gymraeg gael ei flaenoriaethu mewn diwrnodau HMS o ystyried anghenion a gofynion eraill.
- Roedd nifer o’r sylwadau yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau ar gael yn y Gymraeg. Cafwyd awgrym ynghylch casglu gwybodaeth am ddarparwyr hyfforddiant sy’n gallu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cafwyd rhai awgrymiadau y byddai cydweithio ag ysgolion eraill – naill ai rhwng ysgolion Cymraeg, neu rhwng ysgolion mewn gwahanol gategorïau – yn hwyluso datblygiad y Gymraeg.

**Cwestiwn 9 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r polisi arfaethedig er mwyn:**

- **sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg, neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?**

Cawsom 128 o sylwadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn. Roedd nifer yn ailadrodd y farn, mewn ymateb i’r cwestiwn blaenorol, na fyddai effaith neu na ddylid blaenoriaethu’r Gymraeg. Roedd nifer o’r sylwadau yn ymwneud â materion ehangach na darpariaeth HMS. Roedd yr awgrymiadau a rannwyd yn ymwneud â’r canlynol:

- Gweithgareddau i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff, er bod nifer o’r sylwadau yn nodi nad yw amser HMS yn ddigon i wneud hyn mewn modd ystyrlon.
- Gweithgareddau i ddatblygu’r gwaith o hyrwyddo’r Gymraeg mewn ysgolion.
- Sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau ar gael yn y Gymraeg, yn enwedig os ydynt yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio rhwng ysgolion.
- Gweithgareddau Cymraeg i blant ar ddiwrnodau HMS, wedi’u trefnu gan sefydliadau allanol fel yr Urdd neu’r Mentrau Iaith.

**Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.**

Cawsom 65 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o'r sylwadau yn ymwneud â materion yr oedd cwestiynau penodol yn canolbwyntio arnynt. Roedd y canlynol ymhlith y materion eraill a nodwyd:

- Pwysigrwydd ymreolaeth a hyblygrwydd i ysgolion fynd i'r afael â'u hanghenion penodol eu hunain.
- Anghenion penodol ysgolion ffydd.
- Defnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS ar hyn o bryd.
- Pwysau llwyth gwaith ar staff, yn enwedig ar arweinwyr ysgolion.
- Monitro ansawdd ac effaith hyfforddiant a pharatoi mewn diwrnodau HMS, gan gynnwys awgrym y dylai Estyn asesu darpariaeth HMS ysgolion.
- Pwysau ar ysgolion o ran cyllid.
- Cynnwys staff rhan-amser a staff cymorth.
- Angen mwy na 6 diwrnod HMS, neu fwy o amser cynllunio, paratoi ac asesu.
- Mynd i'r afael â'r canfyddiad gan y cyhoedd ynghylch defnydd o ddiwrnodau HMS.
- Disgwyliadau cynyddol ar ysgolion y tu hwnt i addysgu a dysgu.
- Cymhwyso diwrnodau HMS i addysg y blynyddoedd cynnar.
- Datblygu adnoddau cenedlaethol cyson i'w defnyddio ar ddiwrnodau HMS.

## Crynodeb o'r Ymatebion – ymgynghoriad plant a phobl ifanc

Mae'r adran hon yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr. Gofynnwyd naw cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a cheir crynodeb o'r ymatebion i bob un ohonynt isod.

**Cwestiwn 1 – 6 diwrnod HMS: Wyt ti'n cytuno y dylai ysgolion gael 6 diwrnod HMS bob blwyddyn gan ddechrau yn 2026?**

Roedd 100% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 0% yn anghytuno

Roedd 0% yn ansicr

**Cwestiwn 2 – pwrpas diwrnodau HMS: Wyt ti'n meddwl y dylai'r diwrnodau hyn gael eu defnyddio fel bod athrawon yn dysgu, cynllunio a pharatoi pethau fel y cwricwlwm newydd?**

Roedd 100% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 0% yn anghytuno

Roedd 0% yn ansicr

**Cwestiwn 3 – gweithio gyda’n gilydd: Wyt ti’n meddwl y dylai ysgolion cynllunio diwrnodau HMS ar yr un pryd ag ysgolion eraill yn agos atynt? Byddai hyn yn helpu teuluoedd â phlant mewn gwahanol ysgolion ac yn galluogi athrawon i weithio gyda’i gilydd.**

Roedd 80% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 20% yn anghytuno

Roedd 0% yn ansicr

**Cwestiwn 4 – hysbysu teuluoedd: Wyt ti’n meddwl y dylai ysgolion ddweud wrth rieni a gofalwyr ar ddechrau’r flwyddyn pryd fydd diwrnodau HMS a beth yw eu pwrpas?**

Roedd 60% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 0% yn anghytuno

Roedd 40% yn ansicr

**Cwestiwn 5 – peidio â rhoi gormod gyda’i gilydd: Wyt ti’n meddwl y dylai ysgolion osgoi rhoi mwy na 2 ddiwrnod HMS yn olynol (hynny yw, un diwrnod ar ôl y llall)?**

Roedd 80% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 20% yn anghytuno

Roedd 0% yn ansicr

**Cwestiwn 6 – sesiynau ‘Cyfnos’ (twilight): Weithiau mae HMS yn digwydd ar ôl ysgol (gelwir hyn yn sesiynau ‘Cyfnos’) fel bod athrawon yn cael diwrnod ychwanegol yn rhydd heb ddysgwyr. Wyt ti’n meddwl y dylai ysgolion dim ond gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn?**

Roedd 80% o’r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 0% yn anghytuno

Roedd 20% yn ansicr

**Cwestiwn 7 – canolbwyntio ar addysg: Wyt ti'n meddwl y dylai o leiaf 4 o'r 6 diwrnod HMS fod yn ymwneud â dysgu ac addysgu? Weithiau mae'n rhaid i athrawon ddysgu am bethau eraill sydd ddim yn berthnasol i'r dosbarth.**

Roedd 40% o'r ymatebwyr yn cytuno

Roedd 40% yn anghytuno

Roedd 20% yn ansicr

**Cwestiwn 8 – yr Iaith Gymraeg: Sut ydych chi'n meddwl y bydd y cynlluniau hyn yn effeithio ar y Gymraeg? A fydd yn helpu pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg? A allai wneud pethau'n anoddach i siaradwyr Cymraeg? Sut gallwn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg?**

Cawsom 4 sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd dau ymateb yn dadlau na ddylid blaenoriaethu'r Gymraeg dros y Saesneg, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yr iaith Gymraeg yn berthnasol i'r cynigion. Awgrymodd un ymateb y dylid cael o leiaf un diwrnod sy'n canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg, ac integreiddio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig i gynllunio ar ddiwrnodau eraill.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r sylwadau a'r dystiolaeth a roddwyd yn bwysig i lywio penderfyniadau ynghylch darpariaeth a defnydd o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yn y dyfodol yng Nghymru.

Gan mai adroddiad cryno yw hwn, nid yw'n bosibl adlewyrchu pob pwynt unigol a godwyd gan yr ymatebwyr. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn ofalus, ac nid yw absenoldeb materion neu awgrymiadau penodol o'r adroddiad hwn yn golygu eu bod wedi'u diystyru. Bydd nifer o'r pwyntiau a godwyd yn parhau i fod yn berthnasol i raglen waith ehangach Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgu proffesiynol drwy gydol gyrfaoedd ymarferwyr a defnydd effeithiol o ddiwrnodau HMS ar draws y system ysgolion.

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u hystyried ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth gynhwysfawr o effeithiau posibl y cynigion.

Mae'r safbwyntiau a rannwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi'n gryf y cynnig i gynnal y chweched diwrnod HMS yn barhaus, ac yn cefnogi'r cynnig i ragnodi prif ddibenion HMS (hyfforddiant a pharatoi mewn perthynas â'r cwricwlwm ac asesu, cymwysterau, ADY, a blaenoriaethau cenedlaethol). Byddwn yn symud ymlaen â deddfwriaeth i roi'r cynigion hyn ar waith erbyn dechrau blwyddyn

academaidd 2026/27, yn amodol ar benderfyniad gan y Gweinidog ar ôl etholiad 2026.

Cafwyd cefnogaeth, i wahanol raddau, i'r cynigion amrywiol i newid y canllawiau anstatudol i gryfhau diben diwrnodau HMS, y ffordd y cânt eu cynllunio a'r defnydd a wneir ohonynt. Byddwn yn diwygio'r canllawiau i roi'r cynigion hyn ar waith ac yn cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2026/27. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yn llawn y sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r materion a godwyd yn yr ymchwil ehangach a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn benodol, byddwn yn ei gwneud yn eglur bod y canllawiau yn argymell arfer da ond nad ydynt yn ceisio lleihau ymreolaeth a hyblygrwydd ysgolion a'u harweinwyr. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod y canllawiau yn cynnwys cyngor ar gymorth i ddysgwyr, ac ar sicrhau bod darpariaeth HMS yn cyfrannu at gynhwysiant a llesiant dysgwyr ac ymarferwyr ysgol.

Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn nhymor y Senedd nesaf, a byddant yn amodol ar benderfyniadau terfynol gan y Gweinidog ar yr adeg honno.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu paratoi deddfwriaeth, a chyhoeddi canllawiau i'r sector, erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2026/27.

## Atodiad A – Rhestr o’r Ymatebwyr

Mae’r rhestr hon yn cynnwys enwau ymatebwyr a nododd eu bod yn fodlon i’w henwau gael eu cyhoeddi. Rhoddir yr enwau fel y maent wedi’u rhannu yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad.

**Prif ymgynghoriad**

Alastair Gittins, UNSAIN Cymru

Ben Lester, Cyngor y Gweithlu Addysg

Catherine Falcus, ASCL

Cerys Louise Harvey, Ysgol Gymunedol Cwm Tawe

Christine Edwards, Awdurdod Lleol Wrecsam

Claire Merfield

Craig Stewart

Dan

Darren Uren

DCR

e. owens, ysgol

E.Rowlands

Emily

Gemma Blakeley, Castell Alun

Hayley Davied

Hywel Parry, Ysgol John Bright

Isobel Yacomen

Jones

Julie Miller

Kate Evans

Kate, Ysgol gynradd HT

Katherine Durbin, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llangatwg

Kirsty Retallick

Megan Davies

Mickey Mouse, Lowering Tax for Welsh Workers

Natalie

Niamh

Nicola Bennett, Ysgol Bryn Hedydd

Nicola Davies, Castell Alun

Owen Evans, Estyn

Paul

Rachel Gibbins

Rachel Sier

Rebecca Owen

Robert Bell, St. Brigid's Dinbych

Samantha Griffiths, Ysgol Gynradd Ringland

Sean Thomas, Ysgol Aberdaugleddau

Simon Marshall, Ysgol Gynradd Maendy

Siôn Amlyn, NASUWT

**Ymgynghoriad plant a phobl ifanc**

Rachel Evans

Rachel Roberts

Neil Arthur